Ysgol Pentreuchaf

46. Polisi Cyswllt â Diwydiant

Nod

Atgyfnerthu a hyrwyddo datblygiad staff i hyrwyddo elfennau entrepreneuriaeth a medrau menter a cheisio nawdd er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion drwy gysylltiadau agosach at fyd gwaith ac i atgyfnerthu'r cwricwlwm.

Canllawiau

1. Trefnu ymweliadau gan staff a disgyblion a gynllunnir i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fyd busnes.
2. Meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth am natur busnes a'r prosesau allweddol a gynhwysir.
3. Trefnu ymweliadau gan gyflogwyr a gweithwyr a'r ysgol i feithrin dealltwriaeth o faterion cwricwlaidd a darparu cymorth ar gyfer y disgyblion.
4. Canolbwyntio ar yr elfen leol,
5. Defnyddio gweithgareddau o fewn yr ysgol i ddatblygu dealltwriaeth y plant a'u hymwneud ymarferol.
6. Cynllunio prosiectau penodol fydd yn rhoi profiadau perthnasol i'r disgyblion o bob agwedd o fyd busnes.
7. Datgan parodrwydd i dderbyn nawdd ar gyfer gweithgarwch addysgol ar yr amod nad yw'n gysylltiedig â masnachu ar ran y Cwmni ar dir yr ysgol ac nad yw'r elfen o hysbysebu'n rhy amlwg.
8. Caniatáu cydnabod derbyn y nawdd drwy boster neu blac, gydnabyddiaeth mewn rhaglen a.y.b. yn nodi enw'r Cwmni ond nid yn hysbysebu'r nwyddau a gynhyrchir ganddynt.
9. Ymwrthod ag unrhyw gynlluniau sy'n ymwneud â diwydiannau megis tybaco ac alcohol neu hap-chwarae.
10. Ymwrthod â chynlluniau sy'n ymwneud â derbyn nawdd gan bleidiau gwleidyddol neu sectau crefyddol.
11. Ymwrthod ag unrhyw nawdd sy'n ddibynnol ar ganiatâd i arddangos nwyddau ar dir yr ysgol gyda'r bwriad o'u gwerthu.

Casgliad

Cynyddu gwybodaeth y plant a'r staff o fyd gwaith a chael nawdd i gyfoethogi agweddau o waith yr ysgol.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd:_____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad:_____